

2016 Rhif 265 (Cy. 98)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r
A489 (y Drenewydd, Powys)
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro
a Dim Goddiweddyd) 2016**

Gwnaed

1 Mawrth 2016

Yn dod i rym

7 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd - Aberystwyth (yr A489) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (y Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r lluwyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

- ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd yn y Drenewydd yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd.

Atal Dros Dro

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (y Drenewydd, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1979(3), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 3 o'r Atodlen, wedi

Cymhwyso

8. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Mawrth 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1979/1467

YR ATODLEN

Terfyn Cyflymder o 30 mya, 20 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiwedd

1. Y darn hwnnw o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn tua'r de-orllewin o derfynfa'r terfyn cyflymder 30 mya presennol i'r de o'i chyffordd â Ffordd Dolfor Uchaf hyd at bwynt 465 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i Ffrydd Vaughan, y Drenewydd.
2. Y darn hwnnw o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn tua'r dwyrain o derfynfa'r terfyn cyflymder 40 mya presennol ger Gro Cottages, Pool Road, y Drenewydd hyd at bwynt 228 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2647 i Froniarth.
3. Y darn hwnnw o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn tua'r gorllewin o ochr gorllewinol Cylchfan Mochdre,

y Drenewydd hyd at bwynt 517 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa i Glanhafren Hall.